



Cyngor Sir y Fflint

Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol Ebrill 2014 – Mawrth 2015

Rydym yn fodlon darparu'r ddogfen hon mewn arddulliau gwahanol neu yn eich dewis iaith.

Tîm Polisi a Pherfformiad
Gwasanaethau Corfforaethol
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NG
Rhif Ffôn: ☎: - 01352 702131



Adroddiad Blynyddol 2014-2015

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	2
1. Cyflwyniad	3
2. Cynnydd	4
3. Diwallu'r Dyletswyddau Cyffredinol	7
4. Casglu gwybodaeth ac Ymgysylltu	11
5. Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb	14
6. Hyfforddiant	15
7. Caffael	16
8. Casgliad	16

Atodiadau:

1. Cynllun Gweithredu y Cynllun
Cydraddoldeb Strategol (CCS)
2. Gwybodaeth am Gydraddoldeb

Crynodeb Gweithredol

Dyma drydydd adroddiad blynyddol o Gynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir y Fflint. Mae'n nodi ein cynnydd er mwyn cyflawni ein hamcanion cydraddoldeb sydd â'r nod o leihau anghydraddoldeb y mae pobl sydd â nodweddion a ddiogelir yn ei wynebu.

Rydym wedi parhau i ymgymryd â mentrau i ddiwallu'r ddyletswydd cydraddoldeb cyffredinol ynghyd â gweithio yn unol â'r amcanion a nodwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Yn benodol, mae'r Gwasanaeth Ieuentid a Gwasanaeth Addysg i Deithwyr wedi ymgymryd â gwaith anhygoel gyda Theithwyr ifanc. Rydym yn falch bod Teithwyr ifanc o Sir y Fflint wedi cyfrannu at DVD ynglŷn â Throsedd Casineb. Derbyniodd y DVD gydnabyddiaeth yn genedlaethol ac ymhellach. Cafodd ei ddangos yn San Steffan ac mewn nifer o Seneddau Ewropeaidd.

Rydym yn falch iawn fod Sir y Fflint Egnïol (Tîm Datblygu Chwaraeon) wedi ennill gwobr 'Cyfraniad Awdurdod Lleol y Flwyddyn' yng Ngwobrau Tennis Cymru ar gyfer yr ail flwyddyn yn olynol. Mae'r wobwr yn cydnabod llwyddiant Sir y Fflint Egnïol i sefydlu clybiau iau newydd yn y sir gan gynyddu mynediad at dennis ar gyfer pobl ifanc.

Er ein bod yn bennaf ar y trywydd cywir i gwblhau'r gweithredoedd rydym wedi'u gosod i'n hunain, rydym yn gwybod bod y daith o'n blaenau yn un hir. Rydym yn parhau i gasglu data gwaelodlin a fydd yn helpu i ni fesur ein cynnydd dros gyfnod pedair blynedd y Cynllun. Mae cynnydd yn anghyson ar draws sawl portffolio ac rydym yn gwerthfawrogi bod angen rhagor o waith i sefydlu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn llwyr o fewn proses gynllunio busnes newydd y Cyngor.

Colin Everett
Prif Weithredwr

Cynghorydd Billy Mullin
Aelod Cabinet Rheoli Corfforaethol



¹ Ian Budd, Prif Swyddog Addysg ac Ieuentid, a'r Cynghorydd Glenys Diskin, yn cyfarfod gweithwyr a Merched Traveller Dimension

Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2014-2015

1. Cyflwyniad

1.1 Dyma drydydd adroddiad blynyddol ar gyfer y [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#) (CCS); mae'n ymdrin â'r cyfnod rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2015. Mae'r adroddiad yn nodi cynnydd i ddiwallu amcanion a nodwyd o fewn y cynllun; mae hefyd yn darparu crynodeb o weithgareddau eraill yr ymgwymerwyd â hwy i hyrwyddo cydraddoldeb ar gyfer gweithwyr a chwsmeriaid a hyrwyddo perthnasau cymunedol da.

1.2 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyflwyno dyletswydd sector cyhoeddus i

- (a) ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth;
- (b) ehangu cyfle cyfartal rhwng pobl â nodweddion a ddiogelir a phobl hebddynt;
a
- (c) meithrin perthnasau da rhwng pobl â nodweddion a ddiogelir a phobl hebddynt.

1.3 Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn diffinio'r nodweddion a ddiogelir fel:

Oedran	Anabledd
Ailbennu rhywedd	Priodas a Phartneriaethau Sifil
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Hil
Crefydd a Chred	Rhyw
Tueddfryd Rhywiol	

Daw'r iaith Gymraeg o dan Ddeddf Iaith Gymraeg 1998; mae gan y [Cyngor Gynllun Iaith Gymraeg](#) ar wahân a Strategaeth Sgiliau'r Iaith Gymraeg i sicrhau bod ieithoedd Cymraeg a Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.

1.4 Mae Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol i Gymru yn gofyn bod cyrff cyhoeddus yn cyhoeddi amcanion cydraddoldeb a gosod y camau y byddant yn eu cymryd i ddiwallu'r amcanion yma mewn [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#) (CCS).

Mae dyletswyddau cydraddoldeb penodol hefyd yn gofyn i gyrff cyhoeddus:-

- gyhoeddi amcanion i fynd i'r afael â gwahaniaethau mewn tâl
- cyhoeddi datganiad sydd yn nodi'r camau a gymerwyd neu y maent yn bwriadu eu cymryd i ddiwallu'r amcanion a faint o amser y mae'n disgwyl y bydd yn ei gymryd i ddiwallu pob amcan
- cynhyrchu adroddiad blynyddol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn, a fydd yn cynnwys gwybodaeth cyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth am hyfforddiant a thâl
- ymgysylltu â phobl o grwpiau a ddiogelir

- asesu effaith polisïau newydd a diwygiedig ar bobl o grwpiau a ddiogelir
- cyhoeddi a defnyddio gwybodaeth am gydraddoldeb

Diben yr amcanion cydraddoldeb yw lleihau meysydd penodol o anghydraddoldeb a restrwyd gan ddefnyddio tystiolaeth ansoddol a mesurol. Mae'r Cyngor wedi gweithio â chyrff cyhoeddus eraill ar draws gogledd Cymru i restru **amcanion cydraddoldeb rhanbarthol**. Gellir dod o hyd i'r amcanion cydraddoldeb rhanbarthol a lleol a'r sail tystiolaeth a ddefnyddir i adnabod yr amcanion [yma](#).

1.5 Ochr yn ochr â [CCS](#) caiff gwaith y Cyngor ar gydraddoldeb ei gefnogi gan [Bolisi Amrywiaeth a Chydraddoldeb](#), [Cynllun Iaith Gymraeg](#), Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg, Strategaeth Gofal Cwsmer, Canllaw Iaith Blaen a Chynllun y Cyngor.

2. Cynnydd

2.1 Cyhoeddwyd amcanion cydraddoldeb y Cyngor a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ym mis Ebrill 2012. Dyma'r trydydd adroddiad ac mae data gwaelodlin yn parhau i gael ei gasglu. Y mwyaf o ddata sy'n cael ei gasglu, y gorau yw'r dadansoddiad a'r targed a osodir i fonitro perfformiad a lleihau anghydraddoldeb y mae gweithwyr a chwsmeriaid yn ei brofi. Mae rhai o'r mesurau a gafodd eu rhestru i gychwyn bellach wedi cael eu tynnu gan ei bod yn rhy anodd i dderbyn yr wybodaeth neu mae cyfrifoldeb am y wybodaeth yn disgyn ar asiantaeth wahanol. Bydd gwaith yn mynd rhagddo dros y 12 mis nesaf i adolygu'r amcanion cydraddoldeb a nodi mesurau sy'n fwy realistig fydd yn cael eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2016.











2.2 Mae'r cynllun gweithredu i ddiwallu CCS i'w weld yn Atodiad 1; mae hefyd yn amlygu'r cynnydd i ddiwallu pob gweithred.









2.3 Gwnaed cynnydd yn adran Adnoddau Dynol i sicrhau bod proffil amrywiaeth gweithwyr yn cael ei gofnodi i ddiwallu dyletswydd cyflogaeth y Ddeddf Cydraddoldeb; ac mae trefniadau ar waith i ddadansoddi'r data a chyhoeddi adroddiad gwybodaeth am weithlu. Mae'r adroddiad hwn ar gael [yma](#)



2.4 Cynhaliwyd hunan asesiad i ganfod pa mor dda mae cynnydd yn digwydd yn ystod blwyddyn gyntaf ei weithrediad. Mae'r tabl canlynol yn nodi sut y gwnaethom asesu ein perfformiad tuag at cyflawni ein hamcanion lleol. Mae'r tabl yn gosod crynodeb o asesiad yr amcanion o ran "cynnydd" a wnaed tuag at eu cyflwyno a "hyder" wrth gyflawni'r amcanion.









Allwedd Statws CYNNYDD COG	Allwedd Statws CANLYNIAD COG
C Cynnydd Cyfyngedig - oedi yn y gweithgaredd a drefnwyd; ddim yn	C Isel - lefel is o hyder wrth gyflawni'r canlyniad(au)







	cyd-fynd â'r amserlen.		
O	Cynnydd Boddhaol - rhywfaint o oedi mewn gweithgaredd a drefnwyd, ond ar y cyfan ar y trywydd cywir	O	Canolig - lefel ansicrwydd o hyder wrth gyflawni'r canlyniad(au)
G	Cynnydd Da - gweithgareddau'n cael eu cwblhau ar amser, ar y trywydd cywir	G	Uchel – yn gwbl hyderus wrth gyflawni'r canlyniad(au)

Amcan Cydraddoldeb Rhanbarthol: Lleihau anghydraddoldebau o ran iechyd		
Amcan Cydraddoldeb Lleol	Cynnydd	Canlyniadau
Defnyddwyr gwasanaeth o bob grŵp a ddiogelir yn gwneud dewisiadau ffordd o fyw iach		
Oedolion sydd ag anabledd dysgu yn cael gwiriad iechyd		
Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael mynediad at ofal iechyd		
Caiff pobl hŷn sy'n derbyn gofal cymdeithasol eu trin ag urddas a pharch		
Mae pobl Trawsrywiol a Lesbiaid, Hoyw a Deurywiol yn cael eu trin gydag urddas a pharch pan maent yn derbyn gofal cymdeithasol		





Amcan Cydraddoldeb Rhanbarthol: Lleihau canlyniadau anghyfartal ym maes Addysg i wneud y mwyaf posibl i wireddu potensial unigolion		
Amcan Cydraddoldeb Lleol	Cynnydd	Canlyniadau
Mae'r blwch mewn lefelau cyrhaeddiad addysgol bechgyn a merched ym mhob cyfnod allweddol yn gostwng		
Pobl ifanc yn cael rhagor o gyfleoedd i gael gwaith		
Mae lefelau cyrhaeddiad addysgol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn gwella		
Mae gan bobl ifanc diamddiffyn, hy, NEET (Unigolion nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant) a		





throreddwyr ifanc, fynediad i ragor o gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a datblygu sgiliau		
Mae plant a phobl ifanc yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol		

Amcan Cydraddoldeb Rhanbarthol: Lleihau Anghydraddoldeb mewn Cyflogaeth		
Amcan Cydraddoldeb Lleol	Cynnydd	Canlyniadau
Gwella safon a nifer y data gweithlu yn ymwneud â nodweddion a ddiogelir		
Gweithwyr yn dangos ymwybyddiaeth o faterion amrywiaeth a chydraddoldeb a dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus		
Bydd unrhyw fwch cyflog rhwng y gwahanol nodweddion a ddiogelir yn cael eu canfod a'u datrys		
Nid oes bwlch cyflog rhwng dynion a merched sy'n cael eu cyflogi gan y Cyngor		

Amcan Cydraddoldeb Rhanbarthol: Lleihau anghydraddoldeb mewn diogelwch personol		
Amcan Cydraddoldeb Lleol	Cynnydd	Canlyniadau
Nid yw pobl yn dioddef aflonyddu neu drosedd yn ymwneud â chasineb yn y gymuned.		
Mae'r gymuned LGBT, pobl Anabl, pobl hŷn a Phobl Ddu a Lleihafrioedd Ethnig yn teimlo'n hyderus yn adrodd am gam-drin domestig		
Caiff achosion ailadroddus o drais domestig eu lleihau ymysg pob nodweddion a ddiogelir		

Amcan Cydraddoldeb Rhanbarthol: Lleihau anghydraddoldebau o ran Cynrychiolaeth a Llais

Amcan Cydraddoldeb Lleol	Cynnydd	Canlyniadau
Mae proffil y bobl sy'n cymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus a chyrrff cynrychioladol, er enghraifft, llywodraethwyr ysgol, Cynghorau Ysgolion, Cymdeithasau Tenantiaid a Phreswylwyr a grwpiau cynllunio defnyddwyr gwasanaeth yn cynrychioli cyfansoddiad y gymuned leol yn well.		
Caiff yr holl grwpiau a ddiogelir eu cynrychioli yn y gweithgareddau ymgynghori ac asesiadau o effaith ar gydraddoldeb		

Amcan Cydraddoldeb Rhanbarthol: Lleihau anghydraddoldebau wrth gael mynediad i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd		
Amcan Cydraddoldeb Lleol	Cynnydd	Canlyniadau
Gall cwsmeriaid sydd â nodweddion a ddiogelir gael gafael ar wybodaeth yn hawdd		
Mae gan gwsmeriaid sydd â nodweddion a ddiogelir fynediad cyfartal at wasanaethau, cludiant, yr amgylchedd adeiledig a manau agored y mae'r Cyngor yn eu darparu neu'n eu rheoli		

3. Gweithgareddau Ychwanegol – Diwallu'r Dyletswyddau Cyffredinol

3.1 Mae'r adran hon yn ymdrin â'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn o dan y dyletswydd cyffredinol. Mae rhai o'r cyraeddiadau yn cynnwys tair rhan y cyfrifoldeb cyffredinol

3.2 Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth Gweithgareddau a Chanlyniadau

- Fel rhan o Raglen 'Heneiddio'n Dda yng Nghymru', a datblygu cymunedau sy'n cefnogi dementia, mae'r gwasanaeth Llyfrgelloedd yn rhan o waith partneriaeth gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu lleoliadau a chyfleusterau ar gyfer sesiynau hel atgofion.

- Mae gweithwyr y llyfrgelloedd wedi derbyn hyfforddiant 'Cyfeillgar i Dementia'.
- Bu 66 achos o ddigwyddiadau casineb yn Sir y Fflint yn ystod cyfnod 2014/15. Cafodd y digwyddiadau eu dosbarthu fel a ganlyn:-

Math o ddigwyddiad	2011/12	2013/14	2014/15
Ei achosi gan hil	44	43	43
Homoffobig	6	16	13
Yn ymwneud ag anabledd	5	3	6
Iaith Gymraeg/Saesneg	1	3	-
Trawsffobig		1	-
Sipsi / Teithiwr		0	-
Rhyw		1	-
Crefydd		3	2
Arall	1		-
Cyfanswm	57	70	66

- Mae grŵp amlasiantaeth wedi'i sefydlu i fynd i'r afael â thensiynau cymunedol a throsteddau casineb. Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer y grŵp hwn yn cynnwys monitro ac adolygu ffigyrau trosteddau casineb a chymryd y camau sy'n ofynnol i gynyddu'r adroddiadau a lleihau'r digwyddiadau.
- Mae Cydlynwyr Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol wedi paratoi gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth o Drosedd Casineb yn ystod Wythnos Trosteddau Casineb ym mis Hydref 2014. Dosbarthodd Cyngor Sir y Fflint yr wybodaeth trwy Twitter, Facebook, y wefan a'r fewnrwyd. Hyrwyddwyd yr wybodaeth eto ym mis Tachwedd a Chwefror fel rhan o Ddiwrnod Coffa Trawsrywiol a mis Hanes Lesbiaid, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol.
- Mae'r Gwasanaeth Addysg i Deithwyr a disgyblion sy'n Deithwyr wedi gweithio gyda Save the Children i wneud dwy fideo ynglŷn â Throsteddau Casineb.
- Mae holl ddisgyblion blwyddyn 7 ac 8 mewn un ysgol uwchradd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol gan y Gwasanaeth Addysg i Deithwyr fel rhan o'u gwersi Personol, Cymdeithasol, Iechyd ac Addysg.
- Mae hyfforddiant ar ddiwylliant Teithwyr wedi'i ddarparu i weithwyr mewn un ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd.
- Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi hwyluso grwpiau Fforwm (grŵp i ferched a grŵp i fechgyn) ar gyfer Teithwyr. Mae'r grŵp i ferched wedi cyflawni nifer o weithgareddau gan gynnwys gwaith ar droseddau casineb, cydweithio gyda Fforwm Ieuenctid Sir y Fflint, cynrychioli yng Ngŵyl Parch (cynhadledd flynyddol am fwlio a drefnir gan bobl ifanc).
- Mae tri aelod o'r grŵp hwn wedi mynychu Fforwm Ieuenctid Teithwyr a Sipsiwn Cymru Gyfan a drefnwyd gan Save the Children.
- Mae prosiect pontio wedi'i drefnu ar gyfer blynyddoedd 5 a 6. Mae rhai o ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 sy'n Deithwyr wedi ymweld â'r Ysgolion Uwchradd yn wythnosol i gymryd rhan yn y prosiectau uchod mewn lleoliad Ysgol Uwchradd.
- Mae Teithwyr o Ysgolion Uwchradd wedi ymweld ag ysgolion Cynradd i drafod eu profiad yn yr ysgol i annog disgyblion i symud i ysgolion uwchradd.

- Mae disgyblion sy'n Deithwyr yn gweithio ar brosiect gydag Amnesty International ynglŷn â Hawliau Dynol.
- Cynhaliodd y Cyngor wasanaeth ar gyfer gweithwyr ac aelodau etholedig i gofio Diwrnod Coffa'r Holocaust.
- Gwnaed newidiadau ffisegol i ysgolion:
 - Mae 15 o 84 ysgol gynradd bellach yn gwbl hygyrch
 - Mae tair ysgol gynradd yn derbyn addasiadau sylweddol i wella amodau iechydol ar gyfer disgyblion anabl, mae'r rhain yn cynnwys estyniadau i'r ysgol neu ail-fodelu mewnol.
 - Mae ramp mynediad yn cael ei osod ar fynedfa tair ysgol.

3.3 Ehangu cyfle cyfartal rhwng pobl â nodweddion a ddiogelir a phobl hebddynt

Gweithgareddau a Chanlyniadau

- Cyflwyno asesiadau wyneb yn wyneb ar gyfer ceisiadau bathodyn glas dan y meini prawf dewisol. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu o Ganolfannau Sir y Fflint yn Cysylltu a bydd yn cefnogi'r rhai sydd ag anhawster llenwi'r ffurflen gais a darparu tystiolaeth berthnasol. Mae'r unigolion nad ydynt yn gymwys yn cael eu gwrthod ond yn derbyn eglurhad llawn. Mae hyn yn sicrhau mai dim ond y rhai sy'n diwallu'r meini prawf sy'n gallu parcio yn y gofodau parcio dynodedig.
- Ymunodd y Tîm Ymateb Lles â'r Gwasanaeth Budd-Daliadau yn ystod y flwyddyn i gefnogi ceisiadau a gwaith ymyrraeth/cefnogi gyda ein cwsmeriaid sy'n cyflwyno cais am Daliad Tai Dewisol. Mae ceisiadau yn awr yn cael eu penderfynu gydag elfen o amod ar gyfer ein cwsmeriaid i dderbyn cefnogaeth a chynghor. Mae'r Tîm yn gweithio gyda phobl i'w cynorthwyo i helpu eu hunain i gael sefyllfa ariannol sefydlog a hylaw.
- Mae gweithwyr Sir y Fflint yn Cysylltu yn gefnogwyr digidol a byddant yn annog a chynorthwyo cwsmeriaid gyda'r defnydd o fynediad digidol at wasanaethau trwy'r cyfleusterau sydd ar gael yng Nghanolfannau Sir y Fflint yn Cysylltu.
- Mae gofynion Buddiannau Cymunedol yn parhau i gael eu cynnwys ar nifer o brosiectau cyfalaf gwerth uchel e.e. SHARP (Prosiect Tai Cymdeithasol ac Adfywio), mae'r gofynion hyn yn sicrhau bod y Cyngor yn ychwanegu gwerth cymdeithasol i'r contractau.
- Enillodd Sir y Fflint Egnïol (Tîm Datblygu Chwaraeon) wobwr 'Cyfraniad Awdurdod Lleol y Flwyddyn' yng Ngwobrau Tennis Cymru ar gyfer yr ail flwyddyn yn olynol. Mae'r wobwr yn cydnabod llwyddiant Sir y Fflint Egnïol i sefydlu clybiau iau newydd ym Mwcle a Threffynnon ac i ddarparu cyrsiau 'gwella sgiliau' i athrawon ysgol. Mae hyn yn galluogi arweinwyr ifanc i gefnogi sesiynau tennis mewn ysgolion ac yn y gymuned. Hyrwyddwyd sioeau teithiol tennis hefyd i dros 2,500 o blant yn ysgolion y Sir.

- Cydnabu Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn ei adroddiad arolwg ar gyfer 'Quayplay', y lleoliad chwarae plant sydd wedi'i hen sefydlu, sy'n gweithredu o Ganolfan Chwaraeon Cei Connah yn ystod pum wythnos o wyliau'r haf. Adroddodd AGGCC bod QuayPlay yn 'darparu amgylchedd chwarae da ac ansawdd bywyd ar gyfer y plant' a bod y plant a'r rhieni'n elwa o leoliad a reolir yn dda.
- Mae'r cynllun gwella ar gyfer mannau chwarae plant yn seiliedig ar gytundeb cyllid cyfatebol rhwng y Cyngor Sir a Chynghorau Tref a Chymuned wedi arwain at y Cyngor Sir yn cyfrannu £105mil yn 2014/15 tuag at ddatblygiad 16 o fannau chwarae. Yn ystod 2014/15 roedd gwaith gwella i 13 o fannau chwarae wedi'i gwblhau gyda'r tri safle sy'n weddill (Argoed, River View yng Nghei Connah a St Davids yn Higher Kinnerton) i'w cwblhau yn ystod 2015/16.
- Mae "actif ag un" yn gynllun cydraddoldeb anabledd sy'n caniatáu i gymhorthydd personol gael mynediad am ddim i'n cyfleusterau hamdden wrth gefnogi cwsmer anabl. Mae cyfanswm o 129 o gwsmeriaid anabl wedi 'cofrestru' ar gyfer tanysgrifiad "actif ag un" ers lansio'r cynllun yn 2009.
- Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gweithredu menter i ymgorffori cyd-gynhyrchu yn y prosesau comisiynu. Mae hyn yn golygu cynnwys pobl gan gynnwys rhai â nodweddion a ddiogelir yn natblygiad gwasanaethau Sir y Fflint o ddechrau i ddiwedd y broses. Mae'r cynllun peilot ar waith ar hyn o bryd yn y Gwasanaethau Anableddau.
- Mae Hyfforddiant Hylendid Bwyd wedi'i ddarparu trwy gyfrwng Tyrceg i bobl sy'n cael eu cyflogi yn y diwydiant arlwygo yn y sir.
- Mae gwybodaeth ailgylchu ar gael mewn nifer o ieithoedd.
 - Cynhaliodd y Gwasanaeth Maethu a Mabwysiadu gyfres o fentrau penodol oedd yn cynnwys y gymuned Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol (LHD) i gynyddu'r nifer o rieni maeth LHD.
- Cynhaliodd Tîm Diogelwch Ffyrdd y Cyngor weithdai ar gyfer gyrrwyr hŷn (dros 65).

3.3 Meithrin perthnasau da rhwng pobl â nodweddion a ddiogelir a phobl hebddynt.

Gweithgareddau a Chanlyniadau

- Yn ystod haf 2014, roedd 481 o blant wedi cofrestru gyda Quayplay. Y presenoldeb dyddiol ar gyfartaledd oedd 145 o blant, gyda thua 45% dan wyth mlwydd oed. Mae'r gweithgareddau chwarae hyn yn bwysig i uno plant o wahanol grwpiau a ddiogelir a meithrin perthnasau da.
- Cefnogwyd 21 o blant gydag anableddau i fynychu Quayplay trwy'r cynllun 'Cyfaill'.
- Codwyd baner ar 20 Tachwedd 2014 i ddathlu Diwrnod Cofio Trawsrywiol er cof am unigolion trawsrywiol sydd wedi marw yn dilyn trais trawsffobia. Darparwyd gweithdy i godi ymwybyddiaeth o faterion y mae pobl trawsrywiol yn eu hwynebu wrth geisio mynediad i Wasanaethau'r Cyngor ar gyfer aelodau'r gymuned Trawsrywiol. Cefnogwyd hyn trwy hyrwyddo gwybodaeth ar y fewnrwyd ar gyfer gweithwyr.
- Codwyd y faner Enfys yn ystod mis Chwefror 2015 i ddathlu Mis Hanes Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol.

- Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi gweithio gyda Save the Children i gefnogi Teithwyr ifanc i gyfrannu at ddatblygu DVD Troseddau Casineb. Mae'r DVD wedi'i ddangos yn San Steffan ac mewn nifer o Seneddau Ewropeaidd. Cafodd ei hyrwyddo i weithwyr ac aelodau etholedig trwy'r fewnwyd yn ystod wythnos Troseddau Casineb a mis Hanes LGBT.
- Mynychodd disgyblion sy'n Deithwyr weithdy "Show Racism the Red Card"², gan archwilio addysg Sipsiwn a Theithwyr.
- Cymerodd disgyblion sy'n Deithwyr ran mewn gweithdy gyda Chynulliad Cymru ar y system wleidyddol a phleidleisio. Maent hefyd wedi cyfarfod gyda Chadeirydd Cyngor Sir y Fflint, y Cynghorydd Glenys Diskin yn ystod taith o amgylch Neuadd y Sir.
- Trefnodd Heddlu Gogledd Cymru daith Gogledd Cymru o dwunnel synhwyrdd Cŵn Tywys ar gyfer Pobl Ddall; un o'r lleoliadau ar y daith oedd adeilad Cyngor Sir y Fflint yn yr Wyddgrug. Anogwyd gweithwyr i ymweld â'r twunnel i brofi'r heriau y mae pobl ddall ac â golwg rhannol yn eu hwynebu. Profodd aelodau etholedig a gweithwyr o amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys gofalwyr, staff y dderbynfa a Strydwedd y twunnel.



4. Casglu gwybodaeth ac ymgysylltu

4.1 Datblygwyd systemau i gofnodi a monitro proffil ein cwsmeriaid yn ôl nodweddion a ddiogelir. Gan nad oes system yn bodoli eisoes y gellir ei rhannu i gasglu'r data, mae Portffolios a gwasanaethau wedi datblygu eu systemau eu hunain. Serch hynny, nid yw pob nodwedd a ddiogelir yn cael eu cofnodi ar bob system ac nid oes digon o ddata ar gael yn bresennol i gael dadansoddiad manwl ar draws y mwyafrif o wasanaethau.

Daw'r categorïau a ddefnyddir i gasglu data amrywiaeth o [Gyfrifiad 2001](#) a [Chyfrifiad 2011](#) sef yr un mwyaf diweddar ble mae'r wybodaeth yma ar gael. Caiff y data a ddarparwyd gan y gwasanaethau ei gyhoeddi yn Atodiad 2. Mae'n weithred barhaus er mwyn gwella cofnodi yn y maes hwn ar draws sawl gwasanaeth.

² **Show Racism the Red Card** yw elusen addysgol gwrth-hiliaeth y DU. Mae'r sefydliad yn defnyddio statws proffil uchel chwaraewyr pêl-droed i fynd i'r afael â hiliaeth mewn cymdeithas

4.2 Mae ffynonellau eraill o wybodaeth ar gael o [Infobase Flintshire](#) sydd yn darparu mynediad i ystod eang o ddata lleol a chenedlaethol am Gymru, [Uned Data Llywodraeth Leol Cymru](#) ac ymchwil ac adroddiadau rhanbarthol a chenedlaethol.

Nid yw data am bob nodwedd a ddiogelir yn cael ei gofnodi drwy'r Cyfrifiad, er enghraifft, trawsrywiol a thueddfryd rhywiol. Gan fod niferoedd eithaf isel mewn rhai cymunedau gan wneud dadansoddiad ystadegol yn anodd, fe ddefnyddir canlyniadau ymchwil ac adroddiadau cenedlaethol.

4.3 Mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru, rhwydwaith o holl Swyddogion Cydraddoldeb cyrff cyhoeddus ar draws Gogledd Cymru, wedi datblygu ffurflen monitro cydraddoldeb enghreifftiol gyda nodyn Canllaw Deg Awgrym Gorau. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod cysondeb ymysg y categorïau monitro cydraddoldeb a ddefnyddir gan gyrff cyhoeddus ar draws Gogledd Cymru a bydd yn cyfrannu at feincnodi sy'n fwy effeithiol.

4.4 Fe gesglir data ansoddol drwy ddulliau eraill megis arolygon a grwpiau ffocws drwy ymgysylltu â grwpiau lleol megis rhwydweithiau gweithwyr y Cyngor:

- Rhwydwaith Gweithwyr Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGBT)
- Fforwm Merched
- Fforwm Gweithwyr Anabl

a chyda grwpiau cymunedol:

- Fforwm y Byddar Sir y Fflint
- Fforwm Anabledd Sir y Fflint
- Cymdeithas Ddiwylliannol Foslemaidd Sir y Fflint
- Fforwm Ieuencid Sir y Fflint
- Encompass, grŵp cymunedol LGBT
- Cysylltiadau Ffydd
- Y Gymdeithas Ffilipinaidd
- Grŵp Cymdeithasol Rhyngwladol
- Fforwm Pobl Hŷn
- Prosiect Un Cymuned
- Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Cyngorau Ysgolion
- Stonewall Cymru
- Grŵp Cymunedol Summilan
- Grŵp trawsrywiol Unique

Mae swyddogion yn mynychu cyfarfodydd â grwpiau cymunedol er mwyn clywed am broblemau yn fuan, derbyn adborth a barn am unrhyw fentrau a'u cynnwys mewn asesiadau o effaith ar gydraddoldeb.

4.5 Er gwaethaf yr heriau wrth gasglu data, gwnaed gwelliannau:

- Mae recordio manylion ethnig defnyddwyr gwasanaeth bellach yn faes hanfodol ar gronfa ddata client Gwasanaethau Cymdeithasol, PARIS, a ddylai wella perfformiad o ran casglu data ac adrodd.

- Mae monitro proffil tenantiaid, ceisiadau digartrefedd a phobl sydd ar restrau aros tai wedi cael eu cynnwys yng Nghynllun Gwella Tai.
- Mae proffil disgyblion ysgol a lefelau cyrhaeddiad ysgol ar gael.
- Mae Cymunedau yn Gyntaf yn awr yn monitro presenoldeb yn eu gweithgareddau cymunedol.
- Mae'r Gwasanaethau Hamdden wedi bod yn hyrwyddo taflenni Stonewall "What's it Got To Do With You" i annog cwsmeriaid i lenwi'r ffurflenni monitro.

Mae gweithred i gasglu data a chynnal dadansoddiad mwy cadarn wedi'i chynnwys yn y CCS ar gyfer cyflogaeth a gwasanaethau. Yn ystod y 12 mis nesaf, caiff y mesurau presennol yn y cynllun eu hadolygu i sicrhau bod cynnydd yn cael ei fonitro mewn modd mwy effeithiol ac effeithlon. Mae sawl mesur presennol wedi cael eu diddymu gan eu bod yn rhy heriol i gasglu'r data.

4.6 Defnyddio gwybodaeth i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol

Caiff proffil cwsmeriaid/defnyddwyr gwasanaeth ei gymharu yn erbyn proffil y gymuned er mwyn adnabod meysydd â gormod o gynrychiolaeth/heb gynrychiolaeth neu sy'n tan gyflawni sydd yn galluogi Gwasanaethau i osod targedau ar gyfer gwella.

Mae defnyddio data yn y modd yma'n cynorthwyo Gwasanaethau i ganfod meysydd posibl o wahaniaethu a meysydd gwirioneddol o wahaniaethu ac i adnabod y cyfle i ehangu cyfle cyfartal drwy osod targedau gwelliant a fydd yn cael eu cynnwys yn y [CCS](#). Defnyddiwyd y wybodaeth yma i nodi [amcanion cydraddoldeb lleol y Cyngor](#).

Defnyddir cymariaethau o lefelau boddhad a chwynion a gwybodaeth o grwpiau ffocws i adnabod unrhyw feysydd o wahaniaethau posibl a meysydd gwirioneddol o wahaniaethu a meysydd o densiwn cymunedol sydd yn eu tro yn cyfrannu at ganfod cyfleoedd i ehangu cydraddoldeb a meithrin perthnasau da.

4.7 Gwybodaeth Cyflogaeth

4.6.1 Caiff proffil y gweithlu ac ymgeiswyr swyddi ei fonitro, mae canlyniadau'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014 i'w gweld [yma](#). Fe grynhowyd rhywfaint o'r data i sicrhau nad oes modd adnabod unigolion. Mae'r Cyngor yn cyflwyno system Adnoddau Dynol hunanwasanaeth ble anogir gweithwyr i gwblhau eu manylion personol. Caiff proffil amrywiaeth llawn o'r gweithlu ar gyfer 2014/2015 ei gyhoeddi ar wahân a bydd yn cynnwys gwybodaeth sydd ei angen ar gyfer dyletswyddau penodol Deddf Cydraddoldeb 2010.

4.6.2 Ni all y Cyngor gofnodi hunaniaeth rhyw ar iTrent (System Rheoli Adnoddau Dynol) ar Hunanwasanaeth neu â llaw yn erbyn cofnod unigolyn. Mae'r Rheolwr

Gweithrediadau Adnoddau Dynol yn edrych ar opsiynau i gywiro hyn gyda Midland HR (y cyflenwr) ac mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cydlynu'r gweithgaredd yma i fynd i'r afael â hyn gan fod hyn yn effeithio ar fwy nag un awdurdod lleol.

4.6.3 Mae'r holl wybodaeth ar y system Adnoddau Dynol yn cynnwys nodweddion a ddiogelir a gynhwysir o fewn cais ar-lein ac Adolygiad Gwybodaeth Cydraddoldeb. Wrth i fodiwlau pellach o'r system Adnoddau Dynol gael eu gweithredu ac wrth i'r meysydd gael eu llenwi bydd adroddiadau ychwanegol ar gael yn y dyfodol, er enghraifft, cwynion a chamau disgyblu a cheisiadau am hyfforddiant.

4.6.4 Fe gesglir gwybodaeth ansoddol drwy adborth gan gynrychiolwyr o'r Undebau Llafur a Chyd Bwyllgor Ymgynghori Undeb Llafur a thrwy rwydweithiau gweithwyr a restrwyd yn 4.3.

4.6.5 Defnyddir gwybodaeth ansoddol a mesurol i ddylanwadu ar asesiadau o effaith ar gydraddoldeb ar bolisiau ac arferion Adnoddau Dynol ac i adnabod meysydd posibl/gwirioneddol o anghydraddoldeb sydd angen ymchwiliad pellach. Bu'r rhwydweithiau gweithwyr yn rhan o ddatblygu polisi gan gynnwys Polisi Cam-drin Domestig yn y Gweithle, Gweithio'n Hyblyg, Gweithio'n Ystwyth, Prentisiaethau a Chymwyseddau.

5.0 Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb

5.1 Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg yw un o'r mecanweithiau a ddefnyddir i wneud cydraddoldeb yn rhan o'r brif ffrwd ac i gefnogi gwasanaethau i adnabod targedau cydraddoldeb penodol. Cynhelir Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb ar bolisiau ac arferion newydd neu sy'n cael eu diwygio.

5.2 Trefniadau er mwyn asesu effaith polisiau ac arferion

Fe luniwyd templed i ddal yr gwybodaeth briodol sydd ei hangen a gyfer Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb a chaiff ei gefnogi gan ganllawiau mwy manwl. Cynhaliwyd gweithdai ym mhob Portffolio i gefnogi swyddogion allweddol i ymgymryd ag Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb. Mae cynrychiolwyr Portffolio Cydraddoldeb yn darparu cefnogaeth ychwanegol o fewn pob Portffolio. Sefydlwyd grŵp Sicrwydd Ansawdd Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb (yn cynnwys aelodau sy'n cynrychioli nodweddion a ddiogelir gwahanol) i adnabod effaith wael posibl ac i awgrymu datrysiadau. Mae'r grŵp hefyd yn gweithredu fel "rhwyd diogelwch" i sicrhau bod barn pobl ar draws y nodweddion a ddiogelir yn cael eu hystyried. Y nod yw sicrhau bod y broses Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb yn gadarn ac yn drylwyr a'i bod yn cyfrannu at welliant mewn canlyniadau i gwsmeriaid a gweithwyr. Mae'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb bellach yn cynnwys yr iaith Gymraeg. Mae Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb yn eitem sefydlog ar agenda Uwch Dîm Rheoli Gwasanaethau Cymunedol a Grŵp Cydraddoldeb.

5.3 Cwblhawyd Aseidiadau o Effaith ar Gydraddoldeb ar y canlynol yn ystod y 12 mis diwethaf:-

- Taliadau ychwanegol
- Gweithio Hyblyg
- Gwyliau Blynnyddol
- Casgliadau gwastraff swmpus
- Fframwaith Cymhwysedd
- Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG)
- Oriau Gweithio'n Hyblyg
- Adolygiad y Gwasanaethau Hamdden
- Adolygiad y Gwasanaeth Llyfrgelloedd
- Milltiredd a Threuliau
- Goleuadau nos cyfnodol
- Tanysgrifiadau Proffesiynol
- Lleihau adnoddau goleuadau stryd
- Cynnal a Chadw Statws Sengl
- Apeliadau Statws Sengl
- Cyfryngau Cymdeithasol
- Ar Alw a Galw Allan
- Cynnal a chadw meysydd parcio yn y gaeaf
- Cam-drin Domestig yn y Gweithle

Mae crynodeb o Aseidiadau o Effaith ar Gydraddoldeb sydd ag effaith sylweddol yn cael eu cyhoeddi ar [wefan y Cyngor](#).

6.0 Hyfforddiant

6.1 Mae manylion ynglŷn â sut rydym yn hyrwyddo dealltwriaeth a gwybodaeth o gydraddoldeb i'w gweld yn y [CCS](#). Yn ystod 2014/15, rydym wedi cyflwyno tri phecyn e-ddysgu:-

- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Cydraddoldeb yn y gweithle
- Aseidiadau o Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg

6.2 Yn ogystal â'r rhaglenni e-ddysgu, darparwyd gweithdai ar:-

- Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol o Ddiogelu Plant
- Ymwybyddiaeth Byddar
- Stelcian Cam-drin Domestig a Thrais yn Seiliedig ar Anrhydedd (System DASH)
- Dyslecsia a Gwasanaethau Iechyd Meddwl
- Aseidiadau o Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg
- Ailbennu rhywedd
- Diwylliant Sipsiwn a Theithwyr

- Troseddau Casineb
- Agenda “atal”
- Iechyd a Chyfiawnder yn y Carchar: Ymateb i'r Her Iechyd Cyhoeddus
- Cydweithio â'r gymuned Roma

6.3 Mae amrywiaeth a chydaddoldeb hefyd yn cael ei gynnwys yn

- Gwobr Gwasanaethau Cwsmer
- Rhaglen Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheoli (ILM) – ar bob lefel
- Modiwlau e-ddysgu i reolwyr newydd
- Gweithdai cyflwyniad i aelodau etholedig newydd

6.4 Cynadleddau

Mae gweithwyr wedi mynychu Cynhadledd Caethwasiaeth Fodern Gogledd Cymru a mynychodd dau o'r gweithwyr sesiwn “Hyfforddi'r Hyfforddwr” i'w galluogi i ddarparu hyfforddiant ar Gaethwasiaeth Fodern i weithwyr.

6.5 Mae hyfforddiant penodol sydd wedi'i gynllunio ar gyfer 2015/16 yn cynnwys:

- Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol o Ddiogelu Plant
- Ymwybyddiaeth Byddar
- Diwylliant Sipsiwn a Theithwyr
- Troseddau Casineb
- Caethwasiaeth Fodern
- Ymwybyddiaeth Trawsrywiol

6.6 Mae'r Awdurdod Lleol wedi dod yn aelod o Stonewall. Rhaglen Cefnogi Addysgu sy'n golygu y bydd ysgolion yn gallu cael mynediad i gefnogaeth a hyfforddiant arbenigol ar faterion LGBT. Mae hyfforddiant ar ddelio â bwlio homoffobaid ac aflonyddwch mewn ysgolion eisoes wedi'i ddarparu i'r holl ysgolion.

7.0. Caffael

7.1 Mae manylion am sut y caiff cydraddoldeb eu sefydlu mewn i'r broses Caffael wedi'i osod yn y CCS. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnwys cymal ynglŷn â manteision cymunedol mewn contractau dros £2miliwn; mae contractau gwerth £10,000 yn cynnwys elfen o fanteision cymunedol yn y mecanweithiau sgorio. Wrth i'r gwaith hwn ddatblygu, mae ganddo'r posibilrwydd i gyfrannu at gyflawni amcanion cydraddoldeb.

8.0 Casgliad

8.1 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu cynnydd y mae'r Cyngor yn ei wneud i ddiwallu dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a phenodol y sector cyhoeddus. Mae hi'n amlwg serch hynny, bod casglu data i fonitro cynnydd wedi bod yn heriol. Bydd yr amcanion a'r mesurau yn cael eu hadolygu yn ystod y 12 mis nesaf a'u hailgyhoeddi erbyn mis Ebrill 2016. Bydd yn flaenoriaeth sicrhau eu bod yn

effeithiol ac yn effeithlon a byddant yn cael eu hymgorffori i'r system rheoli perfformiad CAMMS newydd. Bydd y system rheoli perfformiad newydd yn sicrhau bod cynnydd yn cael ei fonitro'n effeithiol i ddiwallu'r amcanion.

Diolch yn fawr am ddarllen Adroddiad Blynyddol ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2014/15.

Fe groesawir barn ac awgrymiadau am ein adroddiad blynyddol.

Cysylltwch â ni ar: Ffôn: ☎ 01352 702131


E-bost: 📧 policy.and.performance.team@flintshire.gov.uk




<p>Amcan Cydraddoldeb Rhanbarthol: 1</p>	<p>Lleihau anghydraddoldebau o ran lechyd Maes gweithredu 1.1 Y nifer o bobl, mewn grwpiau sy'n cael eu tan gynrychioli, sy'n dewis ffordd o fyw iach</p>
<p>Amcan Cydraddoldeb Lleol: Yn diwallu nod a Dyletswydd Cyffredinol 1 a 2</p>	<p>Defnyddwyr gwasanaeth o bob grŵp a ddiogelir yn gwneud dewisiadau ffordd o fyw iach</p>
<p>Materion</p>	<p>Mae pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn llawer mwy tebygol o ysmegu ac yfed alcohol sydd yn cyfrannu'n sylweddol at ddisgwyliad oes is. Yn unol â'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, a Fframwaith Strategol Iechyd Cyhoeddus Lleol, bydd rheoli tybaco ac yfed alcohol o fewn canllawiau a argymhellir yn brif faes o ffocws. Byddwn yn ymateb yn gadarnhaol pan fydd lechyd Cyhoeddus Cymru/ Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn cynnig hyfforddiant ymyrraeth byr i weithwyr rheng flaen sy'n gweithio â phobl sydd â phroblemau iechyd meddwl hir dymor.</p> <p>Mae angen datblygu system PARIS (system gofnodi aml ddisgyblaeth cymdeithasol a iechyd) er mwyn i ni allu mesur 'iechyd corfforol gwell' a 'iechyd meddwl a lles wedi gwella neu eu cynnal' i holl ddefnyddwyr gwasanaeth/ nodweddion a ddiogelir.</p> <p>Mae gweithwyr sy'n darparu gwasanaethau gofal uniongyrchol angen gwybod a bod â'r sgiliau er mwyn gallu dylanwadu'n gefnogol a darparu cefnogaeth i bob grŵp a ddiogelir i ddewis ffordd iach o fyw. Rydym yn aros i glywed am benderfyniad Cais Gofal Iechyd Parhaus, ac os byddwn yn llwyddiannus, bydd gweithwyr gofal mewn cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant am anghenion maeth pobl hŷn. Byddwn yn ymateb yn gadarnhaol pan fydd lechyd Cyhoeddus Cymru/ Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn cynnig hyfforddiant ymyrraeth byr i weithwyr rheng flaen sy'n gweithio â phobl sydd â phroblemau iechyd meddwl hir dymor.</p> <p>Rydym yn gwybod bod yna anghydraddoldeb iechyd o fewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf fel y dangosir ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Malc). Fe weithredir er mwyn cyflwyno a chynnal</p>




	<p>gweithgareddau gwella iechyd yn yr ardaloedd hyn.</p> <p>Ni wyddom ar hyn o bryd a oes cofnodion manwl o nifer o blant a phobl ifanc sy'n mynychu Clybiau ar ôl Ysgol, yn enwedig o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, yn cael eu cadw. Rydym angen ymchwilio pa ddata sy'n cael ei gofnodi a sicrhau bod system ar waith i gofnodi data perthnasol am bresenoldeb grwpiau sydd heb eu cynrychioli i ddadansoddi a ydi'r niferoedd o blant a phobl ifanc sydd â nodwedd a ddiogelir yn anghyfartal o isel. Byddwn yn canolbwyntio ar anabledd, hil a rhyw.</p>
Cyfeirnod Tystiolaeth:	
1.1.1	Canran o gyfranogwyr yn ôl nodwedd a ddiogelir ar Raglenni Datblygu Cymunedol mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf
1.1.2	Nifer y plant a phobl ifanc, yn ôl nodwedd a ddiogelir, sydd yn mynychu Clybiau ar ôl Ysgol i gael gweithgareddau corfforol a maeth
1.1.3	Canran o blant a phobl ifanc sydd yn mynychu Clybiau ar ôl Ysgol i gael gweithgareddau corfforaethol neu faeth yn ôl nodweddion a ddiogelir (anabledd, hil, rhyw)
1.1.4	Canran o gyfranogwyr yn ôl nodweddion a ddiogelir sydd yn mynychu canolfannau hamdden

Tystiolaeth	Cyfeiriad y Gwelliant	2010/11	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	Targed i Anelu Amdano yn 2015/16
1.1.1	Uwch	Amh.	Amh.	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	53% gwrywod 46% benywod 5% Pobl Ddu a Lleihafriodded Ethnig 2.5% LGBT 19% Anabl	I'w gadarnhau

						Oedran 23% (dan 24 oed) 22% (25-44 oed) 53% (45-64 oed) 2% (65-74 oed)	
1.1.2	Uwch	Amh.	Amh.	Sefydlu gwaelodlin	I'w ddileu		I'w ddileu
1.1.3	Uwch	Amh.	Amh.	Sefydlu gwaelodlin	I'w ddileu		I'w ddileu
1.1.4	Uwch	Amh.	Amh.	Sefydlu gwaelodlin	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau

Cam Gweithredu	Swyddog Arweiniol/Partner:	Cyfnod amser	Tystiolaeth berthnasol	Cynnydd
Gwasanaethau Cymdeithasol				
Sefydlu cynllunio gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniad, gyda ffocws ar hyrwyddo ffyrdd o fyw.	Rheolwyr Gwasanaethau	I'w adolygu ym mis Mawrth 2013	1.1.1	Parhaus 
Gweithio gyda PARIS a thimau i gofnodi canlyniadau	Rheolwr Busnes	2013	1.1.1	Mae newid strwythurol mawr yn digwydd i system PARIS ar hyn o bryd er mwyn datblygu technoleg

				berthnasol. Mae'r grwpiau defnyddwyr perthnasol yn cwrdd unwaith y mis ac maent wedi canolbwyntio trafodaethau ar ddatblygu'r iaith Gymraeg a nodweddion data Cydraddoldeb. Gall y ffurflenni asesu integredig newydd ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sy'n oedolion gofnodi gwybodaeth fwy eang sy'n berthnasol i ethnigrwydd. 
Aros am ganlyniadau cais Gofal Iechyd Parhaus ar gyfer hyfforddiant i staff gofal mewn cartrefi gofal – y weithred fyddai ymateb i ganlyniad y cais. Os fyddwn ni'n llwyddiannus, byddwn yn ei gefnogi, os na, byddwn yn ceisio cyfleoedd pellach i sicrhau bod y gwaith yn digwydd.	Rheolwr Gwasanaeth Darparwr Pobl Hŷn a Swyddog Datblygu a Lles.	Dyddiad cwblhau Rhagfyr 2012	1.1.1 1.1.2	Wedi'i gwblhau 
Cyflwyno hyfforddiant ymyrraeth byr pan fo ar gael o fewn cyfleoedd datblygu gweithlu ar gyfer gweithwyr rheng flaen perthnasol	Rheolwr Datblygu Gweithlu	I'w Gadarnhau	1.1.1 1.1.2	Parhaus 
Cymuned a Menter				
Cynnal Rhaglenni Datblygu Cymunedol â Thema: Gweithgareddau Gwella Iechyd:-	Rheolwr Cymunedau yn Gyntaf	Parhaus	1.1.3	Mae gweithiwr cefnogi teuluoedd yn awr yn mynychu cwrs bwyd a maeth cymunedol am 10 wythnos gyda swyddogion arweiniol Cymunedau'n Gyntaf, fydd yn eu galluogi i ddarparu'r cwrs Dewch

<ul style="list-style-type: none"> • Bwyta'n iach • Sgiliau Coginio • Cerdded • Beicio 				<p>i Goginio i deuluoedd ac aelodau o'r gymuned ar ôl cwblhau'r 10 wythnos. Yn ystod 2014/15</p> <ul style="list-style-type: none"> • 4 sesiwn o Hwyl yr Haf – 70 o blant a 25 o rieni wedi mynychu. • 3 Sesiynau Blasu Halogen • 6 wythnos – sesiynau coginio mewn un pot. <p></p>
Monitro presenoldeb yn ôl nodweddion a ddiogelir	Rheolwr Cymunedau yn Gyntaf	Chwefror 2013	1.1.3	<p>Mae monitro cydraddoldeb yn cael ei gyflawni</p> <p></p>
Nodi gweithred i gynyddu cyfranogiad ymysg grwpiau a ddiogelir sydd â diffyg cynrychiolaeth	Rheolwr Cymunedau yn Gyntaf	Chwefror 2013	1.1.3	<p>Bydd grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli'n cael eu nodi pan fydd y dadansoddiad wedi'i gwblhau</p> <p></p>



Amcan Cydraddoldeb Rhanbarthol: 1	Lleihau anghydraddoldebau o ran iechyd Maes Gweithredu 1.2 Y nifer o bobl, mewn grwpiau sydd â diffyg cynrychiolaeth, sydd â mynediad at wasanaethau gofal iechyd
Amcan Cydraddoldeb Lleol: Yn diwallu nod a Dyletswydd Cyffredinol 1 a 2	<p>1.2 (i) Mae oedolion sydd ag anabledd dysgu yn cael gwiriad iechyd</p> <p>1.2. (II) Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael mynediad at ofal iechyd</p>



<p>Materion</p>	<p>Datblygwyd Cynlluniau Gweithredu Iechyd (Y Llyfr Glas) yng Ngwasanaethau Anableddau Dysgu. Cafodd y Llyfrau Glas eu profi yn 2010 i sicrhau eu bod yn gweithio. Dylai pawb sydd yn Byw â Chymorth a rhaglen Byw Cymunedol iach fod wedi derbyn un. Mae'r Tîm Cyswllt Iechyd bellach yn eu rhoi i bobl sy'n byw â'u teuluoedd. Y targed ar gyfer eleni yw 20% arall. Dylai pobl eu cymryd gyda nhw pan fyddant yn mynd i weld eu Meddyg Teulu i gael eu Gwiriad Iechyd Cymru bob blwyddyn. Bydd y meddyg yn ysgrifennu yn y llyfr i ddweud wrth y person beth sydd angen iddynt ei wneud i fod yn iach. Ym mis Gorffennaf 2011, mynychodd Nyrs Gyswllt Iechyd y "Grwpiau Dweud eich Dweud" defnyddwyr gwasanaeth yn ystod Diwrnod Cyfleoedd i siarad am y Llyfr Glas a'r Gwiriadau Iechyd a dywedodd nifer o bobl nad oeddynt wedi derbyn eu Llyfr Glas. Caiff Gwiriadau Iechyd Blynyddol y Meddyg Teulu eu monitro drwy gontractau Meddyg Teulu ac fe gynhyrchir adroddiadau. Noder, yn 2010-2011, cwblhaodd Meddygon Teulu 253 o Wiriadau Iechyd Blynyddol Cymru. Mae hyn i fyny 9%. Mae Grŵp Rhaglen Clinigol Gofal Sylfaenol BIPBC yn edrych pa mor dda caiff y gwiriadau iechyd eu cynnal.</p> <p>Cynhaliwyd gweithdy oedd yn berthnasol i Ffordd o Fyw Iach a Mynediad at Wasanaethau Iechyd ym mis Hydref gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Dysgu ar y cyd yn y prynhawn drwy ddod â gweithwyr sy'n gyfrifol am asesiad, cynllunio gofal a chyflwyno gwasanaeth ynghyd (yn fewnol a darparwyr annibynnol). Roedd yr ymarferion o amgylch y bwrdd yn cynnwys "Sut i wella cefnogaeth i bobl i Ddewis Bywyd Iach", a "Sut i gefnogi pobl i gael Mynediad i Wasanaethau Iechyd". Fe luniwyd cynllun gweithredu a chytunwyd arno yng nghyfarfod Partneriaeth Cynllunio a Rheolwyr Tîm Anableddau Dysgu. Caiff y cynllun gweithredu ei adolygu ym mis Gorffennaf gan y Bartneriaeth Cynllunio a'r Rheolwyr Tîm. Gwnaeth cyfranogwyr ymrwymiad personol, ac roedd rhai ohonynt yn benodol i'r 2 bwnc a chaiff y rhain eu monitro drwy oruchwylio a chyswllt dilynol gan y Swyddog Cynllunio. Byddwn yn monitro canlyniadau yn hytrach na thargedau.</p> <p>Mae Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant yn cyflawni nifer o ddangosyddion perfformiad Llywodraeth Cymru sydd yn berthnasol i Blant sy'n Derbyn Gofal yn cael mynediad i asesiadau iechyd a deintyddion. Rydym angen edrych a allwn ni fesur hyn yn ôl nodweddion a ddiogelir.</p>
<p>Cyfeirnod Tystiolaeth:</p>	
<p>1.2.1</p>	<p>Canran o apwyntiadau asesiadau iechyd ar gyfer oedolion sydd ag anabledd dysgu a gynigiwyd o fewn y</p>

	terfynau amser
1.2.2	Canran o asesiadau iechyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal oedd i fod i gael eu cynnal yn y flwyddyn a gynhaliwyd
1.2.3	Canran o Blant sy'n Derbyn Gofal, yn ystod y cyfnod, a gofrestrodd â Meddyg Teulu o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl i'r lleoliad gychwyn
1.2.4	Canran o Blant sy'n Derbyn Gofal, yn ôl oedran, sydd wedi derbyn gofal am 12 mis sydd wedi mynd at ddeintydd i gael gwirio eu dannedd yn ystod y flwyddyn

Tystiolaeth	Cyfeiriad y Gwelliant	2010/11	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	Targed i Anelu Amdano yn 2015/16
1.2.1	Uwch	Amh.	Amh.	ASS/CSS – Ddim ar gael ar hyn o bryd	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	CSS-75% ASS 75%
1.2.2	Uwch	51.5%	61.2%	46.5%	57.4%	53.8%	75%
1.2.3	Uwch	92%	100%	100%	I'w gadarnhau	100%	100%
1.2.4	Uwch	52.2%	76.3%	52.4%	I'w ddileu, asiantaethau eraill yn cadw'r data	34.4%	75%

Cam Gweithredu	Swyddog Arweiniol/Partne	Cyfnod amser	Tystiolaeth	Cynnydd
----------------	--------------------------	--------------	-------------	---------

	r:		berthnasol	
Gwasanaethau Cymdeithasol				
Parhau i gefnogi defnyddwyr gwasanaeth/grwpiau a ddiogelir i gael mynediad i wasanaethau iechyd	Rheolwr Perfformiad a Rheolwyr Tîm	Mai 2012	1.2.1 1.2.2 1.2.3 1.2.4	<p>Mae Sir y Fflint wrthi'n arwain datblygiad Pwynt Mynediad Sengl rhanbarthol. Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei ddatblygu er mwyn gwella mynediad i wasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan y trydydd sector.</p> <p>Cynhelir ymchwil ar hyn o bryd i sicrhau y bydd y gwasanaeth hwn yr un mor hygyrch i bobl o fewn grwpiau a ddiogelir ac sydd ag anableddau.</p> <p>Bydd y gwasanaeth yn ddwyieithog a chaiff gwasanaeth lawn yn y Gymraeg ei gynnig.</p> <p>Mae deunyddiau wrthi'n cael eu datblygu i gynorthwyo unigolion sydd ag anableddau dysgu ac anawsterau corfforol. (Er enghraifft pobl sy'n fyddar neu sydd â theclyn clywed)</p> <p></p>
Gwaith dilynol ar ymrwymadau gweithdy mis Hydref mewn perthynas â hyrwyddo mynediad a dewis ffordd o fyw iach.	Rheolwr Gwasanaeth Anableddau Dysgu	Parhaus	1.2.2	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p></p>






Parhau i gyflawni dangosyddion perfformiad LIC mewn perthynas â Phlant sy'n Derbyn Gofal a chywiro materion cofnodi mewn perthynas â gwiriadau deintydd.	Rheolwyr Gwasanaethau	Parhaus	1.2.4	Wedi'i gwblhau 
Cofnodi proffil plant sy'n derbyn gofal yn ôl nodwedd a ddiogelir	Rheolwr Tîm Plant	Parhaus	1.2.1 1.2.3 1.2.4	Mae gwaith wedi cychwyn ar y fenter yma, a sefydlwyd grŵp tasg a gorffen i ddatblygu'r canlyniad. 

Amcan Cydraddoldeb Rhanbarthol: 1	Lleihau anghydraddoldebau o ran lechyd Maes Gweithredu 1.3 Bod gofal pobl hŷn yn gwella er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu trin gydag urddas a pharch
Amcan Cydraddoldeb Lleol: Yn diwallu nod a Dyletswydd Cyffredinol 1 a 2	Caiff pobl hŷn sy'n derbyn gofal cymdeithasol eu trin ag urddas a pharch
Materion	<p>Mae Portffolio Gwasanaethau Cymunedol wedi rhoi gweithredoedd ar waith eisoes i fynd i'r afael â'r amcan hwn:-</p> <ul style="list-style-type: none"> Sefydlwyd Rhwydwaith Cefnogwyr Urddas Sir y Fflint a Wrecsam. Mae gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth yn gyffredinol wedi digwydd, gan gynnwys erthyglau yn y wasg gyffredinol. Mae codi ymwybyddiaeth gyda gweithwyr gofal cartref a hyfforddiant ail-alluogi yn cynnwys thema urddas. Er mwyn ymateb i holiadur, bydd cynllun gweithredu lleol ar gyfer y rhwydwaith yn cael ei lunio o fewn y chwe mis nesaf. Bydd pob hyfforddiant yn y dyfodol a gomisiynir gan y Tîm Datblygu Gweithlu yn amodi bod y

	<p>thema urddas yn cael ei gynnwys.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Caiff Holiaduron Adborth eu hanfon yn ystod yr adolygiad sydd yn gofyn i bobl hŷn a gawsant eu trin ag urddas a pharch. <p>Yn ychwanegol, mae'r Portffolio Gwasanaethau Cymunedol yn bwriadu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymateb a darparu cynllun BIPBC a luniwyd er mwyn ymateb i adroddiad gan y Comisiynydd Pobl Hŷn 'Gofal ag Urddas? Profiadau pobl hŷn mewn ysbyty yng Nghymru. • Cyflwyno Cynllun Gweithredu Urddas mewn Gofal Rhanbarthol i gael ei lunio ym mis Ebrill 2012.
Cyfeirnod Tystiolaeth:	
1.3.1	Canran/nifer o bobl hŷn yn ôl nodweddion a ddiogelir a ddywedodd eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch

Tystiolaeth	Cyfeiriad y Gwelliant	2010/11	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	Targed i Anelu Amdano yn 2015/16
1.3.1	Uwch	Amh.	Amh.	NEWCES 91% Ardal 100%	Gwybodaeth heb ei gofnodi		I'w gadarnhau





Cam Gweithredu	Swyddog Arweiniol/P	Cyfnod amser	Tystiolaeth	Cynnydd
----------------	---------------------	--------------	-------------	---------

	artner:		berthnas ol	
Gwasanaethau Cymdeithasol				
Cefnogi darpariaeth Cynllun Gweithredu BIPBC	Rheolwr Partneriaethau	Adolygu 2013	1.3.1	Mae hyn yn digwydd ac yn parhau 
Cynllun Gweithredu Urddas mewn Gofal Rhanbarthol	Rheolwr Partneriaethau	Cwblhawyd erbyn Gorffennaf 2012.	1.3.1	Wedi'i gwblhau 
Datblygu a darparu Cynllun Gweithredu Rhwydwaith Cefnogi Urddas	Rheolwr Partneriaethau	Adolygu 2013	1.3.1	Parhaodd gwaith y Rhwydwaith Cefnogi Urddas o dan raglen waith Cydlynedd Strategaeth Pobl Hŷn Roedd presenoldeb yn y cyfarfodydd yn amrywiol. Mae'r rôl wedi trosglwyddo i'r Tîm Datblygu Gweithlu ym mis Ebrill 2014. 
Tîm Gweithlu i gomisiynu hyfforddiant ag urddas yn thema	Rheolwr Datblygu Gweithlu	Parhaus	1.3.1	Parhaus 
Monitro adborth holiaduron a mynd i'r afael â phroblemau	Rheolwyr Gwasanaeth Pobl Hŷn	Parhaus	1.3.1	Wedi'i gwblhau 

Amcan Cydraddoldeb Rhanbarthol: 1	Lleihau anghydraddoldebau o ran lechyd Maes Gweithredu 1.5 Mae pobl Trawsrywiol a Lesbiaid, Hoyw a Deurywiol yn cael eu trin gydag urddas a pharch pa fyddant yn derbyn gofal
Amcan Cydraddoldeb Lleol: Yn diwallu nod a Dyletswydd Cyffredinol 1 a 2	Mae pobl Trawsrywiol a Lesbiaid, Hoyw a Deurywiol yn cael eu trin gydag urddas a pharch pan fyddant yn derbyn gofal cymdeithasol
Materion	Er ein bod yn gynyddol ofyn y cwestiwn ym mhob holiadur boddhad/adborth cwsmeriaid a gafodd pobl eu trin ag urddas a pharch, nid ydym yn monitro ymatebion cydraddoldeb gan bobl Trawsrywiol a Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol. Er mwyn ymateb i'r galw a chasgliadau Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb, darparwyd hyfforddiant arbenigol megis Trawsrywiol. Fe wnaethom weithredu ymagwedd cynllun gofal Canolbwyntio ar Ganlyniad/Unigolyn yn Ganolog sydd yn rhoi rhagor o ffocws ar anghenion unigol yr unigolyn. Mae angen sicrhau bod pob gweithiwr yn ymgymryd â hyfforddiant amrywiaeth a chydraddoldeb.
Cyfeirnod Tystiolaeth:	
1.5.1	Nifer o weithwyr sydd wedi ymgymryd â hyfforddiant amrywiaeth a chydraddoldeb
1.5.2	Canran y cwynion sy'n ymwneud ag urddas

Tystiolaeth	Cyfeiriad y Gwelliant	2010/11	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	Targed i Anelu Amdano yn 2015/16
1.5.1.	Uwch	80	I'w gadarnhau	83	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	10% o'r gweithlu
1.5.2	Is	Amh.	Amh.	I'w gadarnhau	11%	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau

Cam Gweithredu	Swyddog	Cyfnod	Tystiolaet	Cynnydd
-----------------------	----------------	---------------	-------------------	----------------

	Arweiniol/Partner:	amser	h berthnasol	
Gwasanaethau Cymdeithasol				
Ymateb yn barhaus i'r galw, er enghraifft, hyfforddiant arbenigol	Rheolwr Datblygu 'r Gweithlu	Parhaus	1.5.1 1.5.2	Mae hyfforddiant penodol yn ymwneud â LGBT wedi'i ddarparu a bydd yn parhau i gael ei ddarparu'n flynyddol 
Hyrwyddo hyfforddiant amrywiaeth a chydaddoldeb yn barhaus	Rheolwr Datblygu 'r Gweithlu.	Parhaus	1.5.1	Modiwlau e-ddysgu ar gael 
Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gwblhau ar bob polisi/gwasanaeth newydd etc	Rheolwyr Gwasanaethau	Parhaus	1.5.1 1.5.2	Wedi'i gwblhau – proses asesu effaith ar gydraddoldeb wedi'i hymgorffori 
Ymateb i, a mynd i'r afael â chwynion yn ymwneud ag urddas	I'w gadarnhau		1.5.2	Sefydlwyd y broses 





Amcan Cydraddoldeb Rhanbarthol: 2	Lleihau canlyniadau anghyfartal ym maes Addysg i wneud y mwyaf posibl i wireddu potensial unigolion
Amcan Cydraddoldeb Lleol:	Maes Gweithredu 2.1 Mae'r bwch cyrhaeddiad addysgol rhwng grwpiau gwahanol yn lleihau
	2.1 (i) Mae'r bwch mewn lefelau cyrhaeddiad addysgol bechgyn a merched ym mhob cyfnod allweddol yn gostwng



Yn diwallu nod a Dyletswydd Cyffredinol 1 a 2	<p>2.1 (ii) Pobl ifanc yn cael rhagor o gyfleoedd i gael gwaith</p> <p>2.1 (iii) Mae lefelau cyrhaeddiad addysgol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn gwella</p> <p>2.1 (iv) Mae gan bobl ifanc diamddiffyn, hy, NEET (Unigolion nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant) a throseddwy'r ifanc, fynediad i ragor o gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a datblygu sgiliau</p>
Materion	Mae data ar gyrhaeddiad addysgol yn ôl bechgyn a merched yn cael ei gadw gan yr awdurdod lleol. Mae diffyg cysylltiadau rhwng pobl ifanc a'r gymuned fusnes yn arwain at lefelau isel o sgiliau a chymwysterau priodol ymysg ymadawyr ysgol/ coleg, yn enwedig ym meysydd galwedigaethol.
Cyfeirnod Tystiolaeth:	
2.1.1	Cyrhaeddiad rhwng bechgyn a merched ym mhob cyfnod allweddol
2.1.2	Lefelau cyrhaeddiad rhwng Plant sy'n Derbyn Gofal o'i gymharu â grwpiau eraill ym mhob cyfnod allweddol
